**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-HIDCC-0895-24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru

24 Ebrill 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid i osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma:

https://senedd.wales/media/55ehtwo0/ws-ld16460-w.pdf

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio pwerau ym

- mharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchion iechyd planhigion a diogelu planhigion, a
- paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn ar ôl i Fodel Gweithredu Targed y Ffin gael ei gytuno a'i gyhoeddi.

Mewn cydweithrediad â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024, bydd yr offeryn statudol hwn yn gweithredu ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin o 28 Ebrill 2024. Diben yr OS yw diwygio dyddiad diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol o 29 Ebrill 2024 i 31 Ionawr 2025 fel y gall ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin ddechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen.

Mae hefyd yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2020. Rwyf wedi gwneud darpariaethau cyfatebol ar gyfer Cymru yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2024 a osodwyd gerbron y Senedd ar 12 Ebrill.

Nid ydym eto wedi cytuno â llywodraethau'r DU a'r Alban ar ddyddiad ar gyfer dechrau gwiriadau ffisegol ar allforion o Iwerddon, ac rydym eisoes wedi cyhoeddi na fydd ein cyfleusterau yn weithredol cyn gwanwyn 2025, ac felly bydd angen estyniad pellach i'r cyfnod graddoli trosiannol o ddiwedd Ionawr 2025.

Defnyddiwyd y weithdrefn negyddol ar gyfer yr Offeryn Statudol, cafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 22 Ebrill 2024, a bydd yn dod i rym ar 28 Ebrill 2024.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, ond er hynny, o dan rai amgylchiadau, mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Rwyf felly wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod, er mwyn cydgysylltu gwaith ar draws y DU, ac er cysondeb.

Rwy'n anfon llythyr tebyg at Sarah Murphy AS, Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs